# Pennaeth Oedolion

Pecyn Recriwtio



www.gwynedd.llyw.cymru/PenodiPennaethAdranOedolion

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Croeso | 3 |
| Hysbyseb Swydd | 5 |
| Trosolwg o'r Sir | 6 |
| Ein gwaith yma yng Nghyngor Gwynedd | 7 |
| Ffordd Gwynedd | 9 |
| Y Cabinet | 10 |
| Tim Rheoli Corfforaethol | 11 |
| Swydd Ddisgrifiad | 12 |
| Amodau a Thelerau Gwaith Cyffredinol | 20 |
| Amserlen y broses | 22 |
| Sut i ymgeisio? | 23 |




# Croeso



Annwyl Ymgeisydd,

Swydd: Pennaeth Adran Oedolion.

Diolch i chi am ddangos diddordeb mewn ymgeisio am y swydd allweddol hon.

Mae Gwynedd yn enwog am ei harddwch naturiol, ond mae'r Sir mewn gwirionedd yn un unigryw ac amrywiol iawn a'n huchelgais ni fel Cyngor ydi gweld ein cymunedau a'n pobl yn ffynnu. Er mwyn gwireddu'r uchelgais honno mae'r swydd hon yn allweddol ac rydym yn hynod falch eich bod yn ystyried ymuno â ni ar y daith.

Drwy weithio gyda'r gymuned a rhanddeiliaid ehangach bydd deiliad y swydd hon yn mynd i'r afael â'r heriau a adnabuwyd yn yr adroddiad ar gyfer gwasanaethau pobl hŷn, Llechen Lân, a chyda gwasanaethau anabledd a iechyd meddwl, i sicrhau fod pawb yn cael y cyfle gorau i gael byw eu bywyd gorau, beth bynnag fo'u cefndir neu eu anghenion. Yn dilyn derbyn adroddiad cadarnhaol gan Arolygaeth Gofal Cymru eleni ar waith yr Adran, rydym yn edrych am arweinydd creadigol a chryf sydd â phrofiad helaeth o drawsnewid gwasanaethau, ac sydd yn awyddus i adeiladu ar y seiliau cadarn sydd mewn lle.

Rydym yn flaengar yn ein defnydd o'r Gymraeg, ac wedi gwneud enw i'n hunain fel cyflogwr sydd yn arwain yn y maes. Byddwch yn llysgennad i'r iaith yn lleol ac yn genedlaethol, gan barhau i adeiladu ar y gwaith da sydd wedi ei gyflawni hyd yn hyn.

Rydym felly am benodi unigolyn sydd yn arweinydd profiadol ac arloesol, sy'n deall sefyllfa unigryw Gwynedd fel Sir ac sydd am allu cydweithio â'n haelodau etholedig, y tîm arweinyddiaeth, ein gweithlu, yn ogystal â'r rhanddeiliaid allweddol eraill er mwyn parhau ar y daith o droi ein huchelgais yn realiti. Mae'n dull ni o weithio, sef Ffordd Gwynedd, yn bwysig iawn i ni ac rydym angen pennaeth fydd yn parhau i ddatblygu a gwreiddio'r cysyniad hwnnw.

Er gwaethaf y sefyllfa gyllidol heriol ar hyn o bryd, mae Cyngor Gwynedd ar drothwy amser hynod gyffrous yn ein hanes gydag amrywiaeth eang o heriau newydd yn wynebu ein cymunedau. Mae'r swydd hon yn gyfle gwirioneddol i unigolion talentog fod yn rhan o Gyngor sydd yn gweithio'n arloesol, er lles ein pobl yn y Sir.



Ceir holl fanylion y swydd ynghyd â manylion cefndirol eraill yn y ddogfen sydd i ddilyn. Gellir cael manylion pellach am ein gwaith fel Cyngor ar ein gwefan www.gwynedd.llyw.cymru/PenodiPennaethAdranOedolion

Yn y cyfamser, pe byddech yn dymuno cael sgwrs anffurfiol ar unrhyw agwedd o'r swydd mae croeso i chi gysylltu gyda Dylan Owen, Cyfarwyddwr Corfforaethol ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol, ar 01286 679387.

Edrychwn ymlaen at dderbyn eich cais.

Yn gywir,

**Dafydd Gibbard**

Prif Weithredwr Cyngor Gwynedd



# Hysbyseb Swydd

## Pennaeth Oedolion
## Cyflog: £81,860 - £90,274

- **Ydych chi'n arweinydd creadigol ac arloesol, yn meddu ar sgiliau cyfathrebu a rhyngbersonol cryf?**
- **Ydych chi'n awchu i fod yn rhan o dîm o swyddogion ac aelodau etholedig sydd yn rhoi o'u gorau i drigolion ein cymunedau?**

**Rydym yn awyddus i benodi Pennaeth Oedolion a fydd yn chwarae rhan allweddol wrth arwain a gwireddu'r weledigaeth sydd gan y Cyngor ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion y Sir.**

Mae'r Cyngor yn sefydliad arbennig ac unigryw, sydd â gweithlu ac Aelodau Etholedig sydd yn frwdfrydig ac ymrwymedig i sicrhau'r gorau i bobl Gwynedd. Mae'r Cyngor yn cael ei ystyried fel un o'r awdurdodau lleol sydd yn perfformio orau yng Nghymru ac un o'r heriau ar gyfer y dyfodol fydd parhau i arloesi a darparu gwasanaethau o safon i drigolion Gwynedd.

Rydym am benodi unigolyn fydd yn gallu cydweithio'n agos â'r Prif Weithredwr a'r Tîm Rheoli Corfforaethol, arweinwyr gwleidyddol y Cyngor a phartneriaid allanol er mwyn trosi'r dyheadau ar gyfer pobl Gwynedd yn weithredu cadarn.

Rydym yn chwilio am arweinydd creadigol ac arloesol, sydd yn meddu ar sgiliau cyfathrebu a rhyngbersonol cryf, gyda'r gallu i arwain pobl i droi'r weledigaeth yn realiti. Mae'r her yn fawr ond yn un gyffrous, ac rydym am glywed gan unigolion talentog sy'n awyddus i wneud gwahaniaeth i fywydau pobl y Sir.

Rydym yn flaengar yn ein defnydd o'r Gymraeg, ac wedi gwneud enw i'n hunain fel cyflogwr sydd yn arwain yn y maes, trwy weithredu'n fewnol trwy gyfrwng yr iaith a chynnig ein holl wasanaethau yn ddwyieithog. Mae'r angen i gyfathrebu yn y Gymraeg i lefel uchel yn hanfodol ar gyfer y swydd hon felly ac mae'n dilyn y bydd angen i'r ymgeisydd gyrraedd y lefel ieithyddol a nodir yn y pecyn penodi.

Dylai ymgeiswyr fod â phrofiadau eang o fewn sefydliad mawr a chymhleth, gan allu dangos enghreifftiau o gyflawni, rheoli newid a gwella perfformiad. Os ydych yn barod am yr her yma ac yn awyddus i weithio ag arweinyddiaeth y Cyngor i arloesi a gwneud gwahaniaeth, yna byddwn yn croesawu'ch cais.

**Dyddiad Cau : 10 o'r gloch y bore ar yr 31ain o Fawrth, 2025**


Am fwy o wybodaeth ewch i www.gwynedd.llyw.cymru/PenodiPennaethAdranOedolion os am sgwrs anffurfiol ynglŷn â'r swydd, cysylltwch â Dylan Owen, Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol ar 01286 679 387

# Trosolwg o'r Sir

Mae trigolion Gwynedd ymhlith yr hapusaf yng Nghymru. 'Does syndod a dweud y gwir, o ystyried bod rhan helaeth o'r sir o fewn ardaloedd o harddwch eithriadol, yn cynnwys Parc Cenedlaethol Eryri. Gydag amgylchedd glân a hamddenol, mae arfordir a mynyddoedd Gwynedd yn hafan ddelfrydol i adfywio'r enaid.

Mae ein cymunedau ymhlith y mwyaf diogel yn y wlad, a'n dwyieithrwydd naturiol yn cyfoethogi'r diwylliant lleol ym mhob agwedd ar fywyd. Mae'n lle gwych i fagu'r genhedlaeth nesaf, ac mae'r ysgolion a cholegau addysg bellach sydd yn y sir yn cynnig addysg a hyfforddiant heb eu hail.

## FFEITHLUN GWYNEDD 2025




* Gwasanaeth Ymchwil a Gwybodaeth Gwynedd

# Ein gwaith yma yng Nghyngor Gwynedd

## Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28

Pwrpas y Cynllun hwn yw gosod gweledigaeth a blaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer y cyfnod rhwng Ebrill 2023 a diwedd Mawrth 2028. Mae'r Cynllun yn dangos pam ein bod am ganolbwyntio ein hegni a'n hadnoddau mewn rhai meysydd. Mae modd gweld y Cynllun yn ei gyfanrwydd drwy ddilyn y ddolen yma: Cynllun y Cyngor 2023-28

Mae'r Cynllun yn cynnwys cyfres o brosiectau ar gyfer y pum mlynedd nesaf o dan saith maes blaenoriaeth.

**01.** **GWYNEDD YFORY**
Rhoi'r cychwyn gorau posib mewn bywyd i'n plant a pobl ifanc

**02.** **GWYNEDD LEWYRCHUS**
Cryfhau'r economi a chefnogi trigolion Gwynedd i ennill cyflogau teilwng

**03.** **GWYNEDD GLYD**
Cefnogi pobl Gwynedd i fyw mewn cartrefi addas a fforddiadwy yn eu cymunedau

**04.** **GWYNEDD OFALGAR**
Cefnogi trigolion Gwynedd i fyw bywydau llawn a diogel yn ein cymunedau

**05.** **GWYNEDD GYMRAEG**
Sicrhau ein bod yn rhoi pob cyfle i'n trigolion ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned

**06.** **GWYNEDD WERDD**
Gwarchod harddwch naturiol y sir, ac ymateb yn gadarnhaol i'r argyfwng newid hinsawdd

**07.** **GWYNEDD EFFEITHLON**
Rhoi trigolion Gwynedd yn gyntaf gan eu trin yn deg a sicrhau fod y Cyngor yn perfformio'n effeithiol ac effeithlon

# Gwasanaethau Cymdeithasol


Credwn mai gwaith y Gwasanaethau Cymdeithasol ydy galluogi pobl i fyw eu bywyd gorau yn eu cymuned lle bo hynny'n bosib. Er mwyn cyrraedd y nod hwnnw rydym yn cydweithio gyda'n partneriaid yn y gymuned, y trydydd sector, y gwasanaeth iechyd, heddlu ac eraill i hyrwyddo lles ac i alluogi unigolion i wneud penderfyniadau gwybodus am ddatrysiadau posib i'w sefyllfaoedd eu hunain. Ymfalchïwn yn ein gweithlu diwyd ac hyrwyddwn ein hymarfer proffesiynol ar sail cryfderau a thystiolaeth.

Gwnawn bopeth yn ein gallu i alluogi pobl i fyw yn eu cymunedau a golyga hynny fod angen cryn newid ar y gwasanaethau y gall ein gweithlu eu defnyddio. Er enghraifft, mae angen cynllunio gofalus ar ddatblygu llety addas, megis tai gofal ychwanegol, ar draws y sir, a gwneud llawer mwy o ddefnydd priodol o dechnoleg a thaliadau uniongyrchol i alluogi byw'n annibynnol.

Gyda thros hanner y ddarpariaeth gofal (preswyl a gofal cartref) yn fewnol neu gyda'r sector di-elw, mae gwaith yn mynd rhagddo i gyfoesi'n gwasanaethau hefyd ac i sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael.

Tra fod sawl her yng Ngwynedd i'r Gwasanaethau Cymdeithasol, a'r rheiny wedi eu hystyried yn fanwl yn yr adroddiad Llechen Lân yn ddiweddar, rydym yn falch fod Arolygaeth Gofal Cymru wedi ymweld tua diwedd 2024 ac wedi canfod gwasanaethau diogel a da ar y cyfan, tra'n adnabod yr un meysydd i'w gwella a nodwyd gan y gwasanaeth.

**Gweledigaeth Iechyd a Gofal i'r Dyfodol**



# Ffordd Gwynedd






Ffordd Gwynedd yw'r enw a roddir ar y "ffordd o weithio" yr ydym ni wedi'i mabwysiadu er mwyn rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud.

Nid proses na syniad damcaniaethol ydi hyn ond yn hytrach gasgliad o drefniadau gwaith, ymddygiadau a diwylliant sydd, gyda'i gilydd, yn caniatáu i ni fod yn hyderus ein bod yn edrych ar y gwasanaeth trwy lygaid y defnyddiwr.


**Ceir gwybodaeth fanwl ar y cysyniad hwn yn y dogfennau sydd yn yr atodiadau i'r pecyn recriwtio hwn.**

# Y Cabinet

Mae'r Cabinet yn cynnwys 10 Cynghorydd ac yn cael ei gadeirio gan Arweinydd y Cyngor. Mae gan bob Aelod bortffolio penodol o gyfrifoldeb am feysydd o fewn gwasanaethau'r Cyngor.

| Deilydd | Maes | Deilydd | Maes |
| --- | --- | --- | --- |
|  Cyng. Nia Jeffreys | Arweinydd y Cyngor |  Cyng. Menna Trenholme | Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet Plant a Chefnogi Teuluoedd |
|  Cyng. Dilwyn Morgan | Aelod Cabinet Oedolion |  Cyng. Craig ab Iago | Aelod Cabinet Amgylchedd |
|  Cyng. Llio Elenid Owen | Aelod Cabinet Gwasanaethau Corfforaethol a Chyfreithiol |  Cyng. Dewi Jones | Aelod Cabinet Addysg |
|  Cyng. Paul Rowlinson | Aelod Cabinet Tai ac Eiddo |  Cyng. Huw Wyn Jones | Aelod Cabinet Cyllid a Thechnoleg Gwybodaeth |
|  Cyng. Medwyn Hughes | Aelod Cabinet Economi a Chymuned |  Cyng. June Jones | Aelod Cabinet Priffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth Gwynedd |

# Tîm Rheoli Corfforaethol*




*Strwythur yn adlewyrchu y sefyllfa gyfredol ar adeg cyhoeddi y ddogfen hon.

# Swydd Ddisgrifiad

**Teitl Swydd:** Pennaeth Adran Oedolion

**Cyflog:** Graddfa Prif Swyddogion – £ £81,860 - £90,274

**Atebol i:** Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Prif Weithredwr

**Pwrpas y Swydd:**

- Arwain Adran Oedolion, Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Gwynedd yn foesegol, hyrwyddo diwylliant o berfformiad uchel a dysgu, ysbrydoli ac ysgogi arloesi a newid gan sicrhau fod pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth a wneir;

- Trawsnewid Adran Oedolion, Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Gwynedd i alluogi darparu cefnogaeth unigolyn-ganolog sydd yn hyrwyddo unigolion i fyw eu bywyd gorau;

- Trawsffurfio gwasanaethau Adran Oedolion i fabwysiadau a pherchnogi gwasanaethau ar sail cryfder, gwasanaethau adferol, gwasanaethau ataliol, taliadau uniongyrchol, technoleg a roboteg, a llety addas;

- Cynllunio, creu a gweithredu strategaethau comisiynu hir-dymor i sicrhau hyfywedd gwaith yr Adran Oedolion;

- Arwain prosiectau adrannol a chorfforaethol, ynghyd â llunio polisïau'r cyngor. Sicrhau bod y rhain yn cael eu trosi'n gynlluniau a rhaglenni sy'n cael eu hadolygu a'u diweddaru i adlewyrchu anghenion a blaenoriaethau sy'n newid;

- Arwain, mentora a chefnogi tîm amrywiol o weithwyr proffesiynol i ddarparu gwasanaethau effeithiol ac effeithlon;

- Sicrhau fod y gwasanaeth yn effeithiol, effeithlon, ac yn gweithredu o fewn y gyllideb briodol;

- Sicrhau fod y gwasanaethau gofal a ddarperir yn safonol, diogel ac effeithiol;

- Cydweithio â Thîm Arweinyddiaeth y Cyngor, penaethiaid gwasanaeth, aelodau etholedig a phartneriaethau allanol er mwyn sicrhau fod y Cyngor yn darparu gwasanaethau o'r safon uchaf o fewn yr adnoddau posibl i drigolion Gwynedd, a sicrhau fod y gwasanaeth hwnnw'n adlewyrchu polisïau a strategaethau corfforaethol y Cyngor;

- Hyrwyddo gweithio traws asiantaethau a thraws adrannol i sicrhau gweithio integredig effeithiol gyda'r gwasanaethau iechyd, Mantell Gwynedd a'r 3ydd Sector, darparwyr preifat, ac adrannau o fewn y Cyngor, megis Adran Tai ac Eiddo;

- Datblygu prosesau rheoli perfformiad addas sydd yn arddangos canlyniadau eglur, fel ei bod yn bosibl i'r Gwasanaeth gymharu'r canlyniadau hynny yn erbyn y targedau a osodir gan y Tîm Arweinyddiaeth y Cyngor;

- Rhoi adroddiadau cyson i aelodau etholedig, ac i Dîm Arweinyddiaeth y Cyngor ar berfformiad y gwasanaeth, a chynghori ar unrhyw faterion sydd angen gwelliannau;

- Sicrhau canlyniadau pendant wrth wneud y defnydd gorau o adnoddau'r Cyngor, gan ddarparu gwasanaeth penigamp i'r cwsmer, sy'n cyd fynd â blaenoriaethau'r Cyngor ac yn ymateb yn uniongyrchol i anghenion lleol;

- Cydweithio'n rhanbarthol mewn grwpiau Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i sicrhau adnoddau a gwasanaethau cyson o safon;

- Cydweithio ar draws Cymru gyda Llywodraeth Cymru a grwpiau'r ADSSC (Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru) i ddatblygu polisïau a gweithdrefnau cenedlaethol;

- Dirprwyo ar ran Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn ôl yr angen, gan sicrhau parhad arweinyddiaeth a gwneud penderfyniadau o fewn yr adran.

**Cyfrifoldeb am Adnoddau**

- Cyfrifol am gyllideb yr Adran Oedolion yn ei chyfanrwydd gan sicrhau gwerth gorau am arian ac and oes gorwariant;
- Cyfrifol am weithlu'r adran yn ei chyfanrwydd i sicrhau gwaith proffesiynol, safonol a diogel;
- Cyfrifol am gomisiynu gwerth degau o filiynau o bunnoedd o wasanaethau gofal.



**Prif Dyletswyddau**

1. Ymreolaeth Rheoli Gweithredol o fewn polisi, strategaeth ac adnoddau i reoli
- Cyllid,
- Staff
- Technoleg
- Eiddo
- Risg
- Perfformiad

2. Darparu Gwasanaethau
- Sicrhau darpariaeth o wasanaethau o ansawdd uchel i gwrdd ag anghenion cwsmeriaid, o fewn yr adnoddau sydd ar gael
- Cydweithio gyda gwasanaethau ac asiantaethau eraill i sicrhau agwedd integredig at gyflenwi gwasanaethau
- Datblygu polisïau gweithredol
- Gweithredu newid strategol
- Cytuno ar faterion gweithredol arbennig i'w harwain gan Gyfarwyddwr Corfforaethol

3. Arweinyddiaeth
- Arwain, hybu a datblygu staff
- Datblygu a hybu diwylliant y sefydliad
- Cydweithio gyda phartneriaid mewnol ac allanol
- Hybu diwylliant o wella parhaus

4. Cynllunio ac Adolygu Busnes
- Arwain y broses cynllunio ac adolygu busnes
- Cyfrifol am newid mewnol ac adolygu/datblygu gwasanaeth
- Cyfrifoldeb cyffredinol am reoli perfformiad o fewn y gwasanaeth

5. Rhaglen Gorfforaethol
- Pontio rhwng polisïau strategol a gweithredol
- Hybu diwylliant un cyngor
- Cyfrannu at ddatblygiad strategol
- Cytuno a chyflawni ar gerrig milltir rhaglen y gellir ei reoli
- Hybu a gweithredu polisïau a blaenoriaethau corfforaethol e.e. themâu llorweddol

**Cymwyseddau allweddol (yn ychwanegol i weddill cymwyseddau corfforaethol y Cyngor)**

1. Gweithio o fewn y dimensiwn gwleidyddol
- creu cysylltiadau effeithiol/galluogi gweithio'n briodol ar draws ffin gwleidyddiaeth a rheoli
- datblygu strategaeth gyda maer/arweinydd, cabinet ac aelodau a chynnal perthynas effeithiol gydag aelodau etholedig, y rhanbarth a'r Llywodraeth

2. Arwain ar newid a datblygu'r sefydliad
- cynnal cysondeb gyda gwerthoedd sylfaenol wrth ddatblygu'r diwylliant
- gweithio gydag ansicrwydd, amwysedd a natur anochel newid
- datblygu'r defnydd priodol o bŵer, grymuso staff a rheolwyr
- hwyluso twf parhaus yr uwch dîm

3. Cynnal safbwynt personol a hunanwybodaeth

- cynnal hunanwybodaeth a chwilfrydedd ynghylch safbwyntiau eraill, nid rhai personol yn unig
- cynnal cred neu ffydd ynddo'i hunan
- datblygu gwydnwch personol, cynaladwyedd ac ymwybyddiaeth emosiynol
- cadw synnwyr digrifwch

4. Datblygu a galluogi partneriaethau a pherthnasau allanol effeithiol

- bod yn bencampwr yr awdurdod lleol, llywodraeth leol a democratiaeth leol
- cyd-drefnu partneriaethau cyhoeddus a phreifat effeithiol ar gyfer datblygiadau strategol a chyflenwi gwasanaethau
- gweithio gyda chymunedau ac asiantaethau eraill
- defnyddio'r wasg a'r cyfryngau yn effeithiol i gael proffil priodol

5. Cadw golwg ar faterion strategol a hirdymor

- edrych tua'r dyfodol i greu ymwybyddiaeth o sefyllfaoedd posib
- datblygu, cynnal a hyrwyddo gweledigaeth/barn strategol ar gyfer y sefydliad a'r ardal leol
- bod yn ymwybodol o allu strategol y sefydliad
- cyfleu ymdeimlad o flaenoriaeth a phwrpas cyfunol

6. Arwain a chyfuno Rheoli Perfformiad

- creu diwylliant sy'n canolbwyntio ar berfformio'n dda, arloesi a gwasanaeth i gwsmeriaid
- medru gweddnewid meysydd sy'n tanberfformio
- gwella'n barhaus ar draws pob maes gwasanaeth

7. Arwain a Rheoli Pobl

- Ysgogi ac annog timau ac unigolion
- Rhoi cyfeiriad ac adborth i'r tîm
- Creu awyrgylch o barch
- Trosglwyddo gweledigaeth yn effeithiol i dimau ac unigolion
- Dirprwyo gwaith yn effeithiol
- Adnabod a deall ymatebion eraill i sefyllfaoedd penodol tra'n canolbwyntio ar ddarparu gwasanaeth
- Sicrhau amgylchedd diogel i aelodau o dîm ddatblygu trwy gymryd risgiau
- Adnabod a deall y niwed posib a wneir pan na roddir sylw prydlon i achosion o wrthdaro

8 Cyfathrebu

- Rhannu a gwrando ar wybodaeth, barn a syniadau
- Cyfathrebu effeithiol
- Deall bod cyfathrebu yn gallu bod yn arf pwerus i gynyddu cymhelliant a phwysigrwydd cyfathrebu da
- Dewis a defnyddio dulliau cyfathrebu a chyfryngau priodol ar gyfer amrediad o gynulleidfaoedd
- Meddu ar sgiliau cyfathrebu rhyngbersonol effeithiol
- Deall peryglon gweithio o ragdybiaethau
- Gwerthfawrogi teimladau eraill ac yn deall pwysigrwydd cynhwysiad ac ymgynghori

9. Hunanreoli

- Rhagweithiol
- Derbyn cyfrifoldeb am eu gweithredoedd eu hunain
- Darparu sefydlogrwydd mewn adegau o newid
- Meddu ar lefelau uchel o hunanymwybyddiaeth
- Dangos gonestrwydd
- Yn emosiynol wydn ac ymwybodol
- Blaenoriaethu tasgau a gwneud defnydd effeithiol o amser
- Dangos cyflawniad gwerth cyhoeddus

**Prif feysydd cyfrifoldeb**

- Oedolion
- Diogelu Oedolion Bregus
- Darparu Gwasanaethau Gofal
- Comisiynu a Chontractau
- Gwasanaethau Preswyl a Dydd
- Gofal Cymunedol
- Cyfrifoldeb am hunan ddatblygiad.
- Sicrhau cydymffurfiaeth â rheolau Iechyd a Diogelwch yn y gweithle yn unol â'r cyfrifoldebau a nodir yn Neddf Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle 1974 a Pholisi Iechyd a Diogelwch y Cyngor.
- Gweithredu o fewn polisïau'r Cyngor yng nghyswllt cyfle cyfartal a chydraddoldeb.
- Cyfrifoldeb am reoli gwybodaeth yn unol â safonau a chanllawiau rheoli gwybodaeth y Cyngor. Sicrhau bod gwybodaeth bersonol yn cael ei thrin mewn cydymffurfiaeth â deddfwriaeth Diogelu Data
- Ymrwymiad i leihau allyriadau carbon y Cyngor yn unol â'r Cynllun Rheoli Carbon ac i annog eraill i weithredu'n gadarnhaol tuag at leihau ôl-troed carbon y Cyngor.
- Ymgymryd ag unrhyw ddyletswydd arall cyfatebol a rhesymol sy'n cyd-fynd â lefel cyflog a lefel cyfrifoldeb y swydd.
- Cyfrifoldeb i adrodd a gweithredu ar bryder neu amheuaeth bod plentyn neu oedolyn bregus yn cael ei gam-drin

Amgylchiadau Arbennig

- Mae gwaith swydd Pennaeth Oedolion gynnwys oriau anghymdeithasol achlysurol a gweithio ar y rota ymateb i argyfwng yn rheolaidd.

Nodweddion Personol / Cymwyseddau

Cydnabyddiaeth a chefnogaeth - Rydych yn gweithio'n dda fel rhan o dîm, gan ystyried eich llesiant eich hun ac eraill. Rydych yn cydnabod cryfderau a'r potensial ym mhawb, gan eu hannog i ddysgu, i wneud cynnydd ac i ddatblygu. Rydych yn creu diwylliant o werthfawrogiad, lle mae pobl yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn cael eu cydnabod am y gwahaniaeth maent yn ei wneud.

**Ffocws Cwsmeriaid** - Rydych yn chwilio am farn amryw unigolion sy'n derbyn ein gwasanaethau i wella ein darpariaeth. Rydych yn cynllunio anghenion gwasanaeth ymlaen llaw, gan ystyried ffactorau ehangach ac effeithiau hirdymor penderfyniadau. Rydych yn datblygu, yn cyflawni ac yn gwerthuso cynlluniau strategol, gan gydbwyso pwysau tymor byr â nodau tymor hir, yn unol â gweledigaeth y Cyngor, sy'n mynd i'r afael ag anghenion gwasanaeth amrywiol, gan gynnwys yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymru.

**Uniondeb** - Mynd i'r afael â risg - Rydych yn cynllunio, cydnabod a gweithredu mesurau i ymateb i'r risg i chi a/neu i eraill achos ymddygiadau neu sefyllfaoedd. Rydych yn hyrwyddo a sicrhau bod gwerthoedd ymddygiad, iechyd a diogelwch ac arferion diogelu yn arwain gwaith tîm. Rydych yn sefydlu ac yn hyrwyddo diwylliant cadarnhaol lle mae iechyd, llesiant, arferion gweithio diogel a diogelu yn gyfrifoldeb ar bawb.

**Arwain a Dirprwyo** - Rydych chi'n dilyn prosesau a chanllawiau, gan herio mewn ffordd gadarnhaol os bydd mater yn codi. Rydych yn blaenoriaethu eich gwaith eich hun a gwaith eraill yn deg, ar sail cryfderau pobl, ac yn darparu adborth clir ac amserol. Rydych yn pennu ac yn cynnal cyfeiriad clir a chadarnhaol, gyda blaenoriaethau a chanlyniadau â ffocws amlwg sy'n cael eu cyfathrebu'n glir i'r timau.

**Arloesi** - Rydych yn gofyn cwestiynau ac yn chwilio am ffyrdd gwell a/neu newydd o wneud pethau, gan awgrymu gwelliannau. Rydych yn dylunio prosesau a systemau sy'n cefnogi newid cadarnhaol, yn diogelu dysgu ac yn gwella gwasanaethau. Rydych yn ymgorffori diwylliant o arloesi a meddwl creadigol i ysgogi gwelliannau i'r gwasanaeth, gan rymuso timau i annog datblygiad parhaus.

**Dangos cyfrifoldeb** - Rydych yn atebol am yr hyn rydych wedi addo'i gyflawni, gan gynnwys tasgau a ddirprwywyd i eraill. Rydych yn defnyddio eich crebwyll a chymryd ymagwedd ystyriol at sefyllfaoedd a thasgau wrth wneud penderfyniadau a/neu ddarparu cyngor. Rydych yn dyrannu adnoddau yn deg ac yn gwneud penderfyniadau strategol priodol i gefnogi'r broses o ddarparu'r gwasanaethau.

**Cyfathrebu** - Rydych yn cyfleu syniadau mewn ffordd glir er mwyn sicrhau bod eraill yn gallu deall. Rydych yn creu a chynnal perthynas waith gadarnhaol broffesiynol a llawn ymddiriedaeth â phobl yn y gwasanaeth a'r thu hwnt. Rydych yn dangos ymwybyddiaeth wleidyddol a diwylliannol, gan adlewyrchu ein gwerthoedd drwy gyfathrebu â gwahanol gynulleidfaoedd gyda gonestrwydd, uniondeb, didueddrwydd a gwrthrychedd, i feithrin ymddiriedaeth a sicrhau ymrwymiad eraill.

**Deall eraill** - Rydych yn gwrando er mwyn deall safbwyntiau ac anghenion eraill, gan ymateb yn sensitif a gwirio dealltwriaeth lle bo angen. Rydych yn hwyluso trafodaethau adeiladol ac yn gweithio gydag amrywiaeth o bobl i ddod i gytundeb. Rydych yn defnyddio hunanymwybyddiaeth a lefelau uchel o ddealltwriaeth o anghenion eraill i ddylanwadu ar gytundebau strategol a chydweithredol lefel uchel a'u trafod.

**Cymwyterau a hyfforddiant perthnaol**

Cymhwyster proffesiynol Gwaith Cymdeithasol neu Therapi Galwedigaethol neu gymhwyster proffesiynol perthnasol, neu brofiad cyfatebol amlwg mewn swydd uwch reolwr yn hanfodol.

Gradd meistr, e.e. MBA / Rheoli Newid yn ddymunol.

Profiad Perthnasol

- Profiad sylweddol mewn rôl arwain o fewn gofal cymdeithasol i oedolion.
- Profiad llwyddiannus o gynllunio strategol, datblygu gwasanaethau, a rheoli perfformiad.
- Profiad sylweddol o reoli cyllidebau mewn amgylchedd heriol.
- Profiad amlwg o weithio mewn partneriaeth llwyddiannus gydag asiantaethau eraill gan gynnwys y 3ydd Sector / Grwpiau gwirfoddol.

Sgiliau a gwybodaeth arbenigol

- Hyder mewn rheoli materion sensitif a gwleidyddol yn ddiplomataidd i gyflawni canlyniadau cadarnhaol.
- Ymrwymiad i hyrwyddo amrywiaeth a chynhwysiant mewn perthynas â mynediad at wasanaethau ac o fewn y gweithlu, gan sicrhau cyfle cyfartal a chydymffurfio â deddfwriaeth gysylltiedig.

Anghenion ieithyddol

Gwrando a Siarad - Lefel Uwch
Gallu dilyn sgwrs neu drafodaeth drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg ar lefel broffesiynol a thrafod pynciau cyffredinol bob dydd yn y maes er mwyn cyflwyno gwybodaeth a mynegi barn. Gallu darparu cyflwyniad wedi'i baratoi o flaen llaw ac ymateb i unrhyw sylwadau a chwestiynau arno drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.

Darllen a Deall - Lefel Uwch
Gallu deall Cymraeg a Saesneg ysgrifenedig safonol, ffurfiol ac anffurfiol. Medru casglu gwybodaeth o amrywiol ffynonellau megis llythyrau, adroddiadau, erthyglau, drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg er mwyn cyflawni'r swydd.

Ysgrifennu - Lefel Uwch
Cyflwyno gwybodaeth ysgrifenedig gyda hyder ar ffurf llythyr, adroddiad mwy manwl a thechnegol ac ymateb i geisiadau ysgrifenedig gan gyfleu gwybodaeth, syniadau a barn drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. (Mae'n bosib cael cymorth i wirio'r iaith)

Gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)

Mae gwiriadau DBS yn ofynnol ar gyfer y swydd hon gan ei bod yn swydd lle y bydd angen gweithio gyda phlant ac oedolion agored i niwed. Mae'r canlynol yn ofynnol ar gyfer y swydd hon:

- Adran A – y math o ddatgeliad Datgeliad Manwl gan wirio'r rhestr wahardd

- Adran B – y math o weithlu Y gweithlu plant ac oedolion
- Adran C – Gofyniad ar gyfer adnewyddiadau DBS 3 blynedd neu DBS i'w gofrestru ar y gwasanaeth diweddaru le

Mae hyn yn angenrheidiol gan fod y swydd yn rheoli gwasanaethau sy'n ymgymryd â gweithgarwch a reoleiddir ar gyfer oedolion, a Phlant (Tîm 0-25). Rheoli gwasanaethau a reoleiddir (sy'n cael eu harolygu gan AGC) sydd angen gwiriadau adnewyddu.

Mae diogelu yn fater i bawb. Mae gan bob un ohonom gyfrifoldeb am amddiffyn plant ac oedolion sydd mewn perygl, gweithio mewn ffordd sy'n hyrwyddo ac yn cefnogi eu budd pennaf, a rhoi gwybod am unrhyw bryderon.

Swydd wleidyddol gyfyngedig

Mae hon yn swydd wleidyddol gyfyngedig.



# Amodau a thelerau gwaith Cyffredinol Pennaeth Oedolion

1. Bydd y penodiad yn cael ei wneud yn unol ag amodau a thelerau'r Cydbwyllgor Trafod i Brif Swyddogion Llywodraeth Leol (gan gynnwys unrhyw addasiadau lleol i'r telerau hynny), neu delerau lleol ehangach eraill sydd yn rhan o gytundeb torfol rhwng y Cyngor a'r undebau llafur.

2. Oriau gwaith

Yr oriau gwaith wythnosol safonol ydi 37 awr, ond mae natur y swydd yn golygu y bydd angen i'r sawl a benodir weithio oriau anghymdeithasol y tu hwnt I hynny hefyd.

3. Amser gwasanaeth

Bydd holl amser gwasanaeth deilydd y swydd yn cael ei dreulio ar waith y Cyngor. Ni chaniateir ymgymryd ag unrhyw waith na chyflogaeth arall heb ganiatâd penodol y Cyngor.

4. Perfformiad

Cwblheir asesiad blynyddol o berfformiad y Pennaeth Adran gan y Prif Weithredwr.

5. Cyflog

- Graddfa cyflog y swydd yw £81,860 - £90,274.
- Bydd cynnydd trwy hicynnau o fewn y raddfa cyflog ar sail blynyddol a hynny ar y 1af o Ebrill o bob blwyddyn, yn ddibynnol ar ddatblygiad boddhaol o fewn y swydd.
- Telir y cyflog yn fisol trwy drosglwyddiad credyd banc ar yr 22ain o bob mis.

6. Treuliau

- Caniateir treuliau teithio a chynhaliaeth ynghyd ag unrhyw dreuliau eraill priodol ar sail yr hyn a benderfynwyd gan y Cyngor ac yn unol a'r cytundeb cenedlaethol fel y mabwysiadwyd neu y diwygwyd gan y Cyngor.
- Dynodir y swydd yn un defnyddiwr car at ddefnydd y swydd yn ôl y galw. Pan fyddwch yn defnyddio'r car ar fusnes y Cyngor telir treuliau i chi yn unol a'r raddfa achlysurol.

7. Gwyliau

- Mae blwyddyn wyliau'r Cyngor yn dechrau ar y cyntaf o'r mis sy'n dilyn y mis y penodwyd chi i'r Cyngor. Caniateir 28 diwrnod o wyliau gyda 5 diwrnod ychwanegol ar ôl cwblhau 5 mlynedd o wasanaeth di-dor.
- Yn ogystal caniateir 10 diwrnod o wyliau banc a gwyliau statudol ychwanegol, ynghyd ac un diwrnod a hanner ychwanegol a ganiateir gan y Cyngor.

8. Rhybudd

Isafswm y cyfnod rhybudd gan y ddwy ochr fydd 3 mis.

9. Buddiannau

Mae yna becyn amrywiol o fuddiannau i'w cael wrth weithio i Gyngor Gwynedd, gan gynnwys:

- Mynediad I gynllun pensiwn llywodraeth leol – cynllun pensiwn sydd yn golygu fod cyfraniadau'r Cyngor i'ch cronfa bensiwn bersonol yn 19.2%. Mae llawer o fuddion eraill ynghlwm â'r cynllun hefyd – cysylltwch os am fwy o fanylion.
- Gweithio'n hyblyg – cyflogwr sydd yn fodlon ystyried, ac wedi arddangos, ei barodrwydd I gefnogi staff I weithio ar sail hyblyg, fel sail I ganfod balans gwaith a bywyd llesol.
- Pecyn adleoli o dan amodau penodol – Cefnogaeth Ariannol ar gael I symud cartref, o dan amodau penodol. Cysylltwch os am fwy o wybodaeth.
- Cyfraniad Ariannol tuag at aelodaeth o un corff proffesiynol.
- Mynediad posib I fuddiannau eraill megis cynllun prynu car, cynllun prynu beic, cynllun gostyngiadau gyda busnesau lleol a chenedlaethol.

10. Mae'r swydd hon yn un sydd weid ei chyfyngu yn wleidyddol o dan ddarpariaeth Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989. Mae hynny'n golygu na ddylai'r deilydd ddangos tuedd wleidyddol.



# Dyddiadau allweddol yn y broses

| | |
|---|---|
| **Dyddiad Cau** | 10:00 y bore 31/3/25 |
| **Tynnu rhestr fer** | 09/04/25<br><br>Bydd y rhai ar y rhestr fer angen cwblhau prawf seicometreg ar-lein erbyn 12:00 o'r gloch y prynhawn ar y 17/04/2025.<br><br>Anfonir y wybodaeth atoch cyn diwedd y dydd ar yr 11/04/2025. |
| **Proses Asesu**<br>(yn cael ei gynnal gan gwmni allannol) | Rhwng 22/04/2025 a 30/04/2025. Os gwyddoch nad ydych yn bendant ar gael ar rai o'r dyddiau yn ystod y cyfnod hwn yna cysylltwch a ni cyn gynted â phosib os gwelwch yn dda |
| **Canolfan Asesu**<br>(Mewnol) | 09/05/2025<br><br>Gofynnir i ymgeiswyr gadw'r diwrnod llawn yn rhydd am y tro, hyd nes y bydd manylion pellach. |
| **Cyfweliad â Phwyllgor Penodi Prif Swyddogion y Cyngor** | 15/05/2025<br><br>Gofynnir i ymgeiswyr gadw'r diwrnod llawn yn rhydd am y tro, gyda manylion pellach i ddilyn cyn hynny |

# Sut i ymgeisio?

I gofrestru eich diddordeb yn y swydd allweddol hon ac i dderbyn gwybodaeth ar sut i fynd ati i gyflwyno'ch cais, gallwch anfon e-bost at ein Gwasanaeth Adnoddau Dynol ar **penodipennaethadranoedolion@gwynedd.llyw.cymru** yn y lle cyntaf.

Byddwn yn cydnabod derbyn eich cais, a hefyd yn cysylltu â chi er mwyn cadarnhau a ydych wedi eich rhoi ar y rhestr fer ai peidio.

Byddwch yn derbyn arweiniad a chyfarwyddiadau ymlaen llaw ynghylch sut i gymryd rhan yn y broses yn llawn, a bydd gennym dîm o swyddogion yn y cefndir a fydd yn cefnogi a hwyluso'r broses, fel ei bod yn rhedeg mor esmwyth â phosib.

I gloi, diolch i chi am ddangos diddordeb yn y swydd hon yng Nghyngor Gwynedd.

Dyddiad cau: 10:00 y bore, 31ain o Fawrth, 2025 gyda'r ceisiadau i'w hanfon at:

**penodipennaethadranoedolion@gwynedd.llyw.cymru**

**Ymholiadau**

- Am sgwrs anffurfiol, cysylltwch â Dylan Owen, Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol ar 01286 679386.
- I gofrestru'ch diddordeb ac i dderbyn gwybodaeth ynghylch sut i ymgeisio, cysylltwch â'r
- Gwasanaeth Adnoddau Dynol ar **penodipennaethadranoedolion@gwynedd.llyw.cymru**

